Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

ATODIAD GA36c

MANYLEB ASESU LEFEL 6

Enw'r myfyriwr:		**Rhif Adnabod y myfyriwr:**	
Rhaglen:	Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg gyda Statws Athro Cymwysedig (ProfGCE)		
Modwl:	**Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: ble ydw i'n addysgu?**		
Cod y modwl:	**ECAD6054C**	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):**	**50%**
Darlithydd:	Jessica Roberts	**Gwiriwr Mewnol:**	Dave Stacey
Teitl yr Aseiniad:	**Cyflwyniad Fideo Unigol** Deall Rôl ac Effaith Ymgysylltiad Ysgol-Teulu: Archwiliad Beirniadol o Agwedd ar Y Broses Hon yn Eich Ysgol Lleoliad	**Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):**	**Elfen 1 – 50%** Ymarferol: Cyflwyniad Fideo Unigol (5 munud)
Dyddiad cyflwyno:	**TBA**	**Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:**	**TBA**
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) **Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol):** **Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb:** Bydd gwaith a gyflwynir hyd at wythnos yn hwyr yn cael ei gapio ar 40% ar gyfer y cynnig cyntaf a dyfernir marc o 0% am waith ail-asesu. Dim ond os oes hawliad amgylchiadau esgusodol cymeradwy y gellir diddymu cosbau am gyflwyno'n hwyr. Bydd gwaith a gyflwynir fwy nag wythnos yn hwyr yn cael ei ystyried fel gwaith heb ei gyflwyno ac ni chaiff ei farcio. Gellir ystyried y gwaith fel cyflwyniad i'w ail-asesu os caiff ei gynnig gan Fwrdd Arholi neu os oes hawliad amgylchiadau esgusodol cymeradwy.		
Gonestrwydd	Mae gonestrwydd academaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad		

academaidd / cyfeirnodi:	rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.

AMCAN(ION)

- Datblygu dealltwriaeth feirniadol darpar athrawon o'r modd y mae ffactorau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn dylanwadu ar y dysgu gan ddisgyblion e.e. polisïau cenedlaethol, cymunedau a theuluoedd, a sut mae'r ddealltwriaeth hon yn ymwneud â materion cyfiawnder cymdeithasol.

- Ennyn diddordeb darpar athrawon gydag ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth sy'n cysylltu'r gymuned lle mae'r dysgwr yn byw â'r dewisiadau addysgegol a wneir yn y dosbarth er mwyn ysbrydoli dysgwyr a'u teuluoedd.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athrawon allu

- adfyfyrio'n feirniadol ar y cyd-destun ysgol gan ystyried ffactorau diwylliannol, ieithyddol ac economaidd-gymdeithasol a allai ddylanwadu ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr;

- dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth fanwl o rôl broffesiynol yr athro a chymhwyso hynny mewn perthynas â gweithio'n agos â rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n cefnogi ysgolion a'r gymuned ehangach;

- dadansoddi'n gywir a gwerthuso'n feirniadol data lleol a chenedlaethol i lywio penderfyniadau ar lefel yr ysgol gyfan a'r dosbarth, gan ddangos dealltwriaeth gadarn a chynhwysfawr o linellau atebolrwydd.

CYNNWYS DANGOSOL

- Adolygiad beirniadol o ddatblygiad polisi ac arfer addysgol yng Nghymru, gan gynnwys blaenoriaethau cyfredol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r arolygiaeth ynghyd â'u trefniadau i sicrhau newid.
- Adfyfyrio, trafod a beirniadu effaith blaenoriaethau a mentrau cyfoes ar drefniadaeth ysgol gyfan a phrosesau datblygu ysgolion.
- Ystyriaeth o brosesau gwella ysgolion a yrrir gan faterion cyfoes i gefnogi gwelliannau mewn safonau dysgu ac addysgu.
- Archwiliad beirniadol o'r credoau athronyddol sy'n sail i amgylcheddau dysgu effeithiol mewn ysgolion e.e. gweledigaeth, datganiadau cenhadaeth, gwerthoedd ac ethos, a sut mae'r rhain yn cael eu sefydlu a'u cytuno gyda'r gymuned ehangach.
- Cyfle i ddangos cyfrifoldeb proffesiynol mewn perthynas â gweithio mewn system addysg ddwyieithog: er enghraifft, datblygu'r Gymraeg yn y cwricwlwm.

Archwilio anghenion dysgwyr o gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol i sicrhau tegwch, a dangos gwerthfawrogiad y gall yr anghenion hyn newid mewn poblogaeth ysgol ddynamig.

Datblygu'r nodwedd o fod yn rhan o gymuned gynhwysol o ymarferwyr ymholgar sy'n estyn y tu mewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac i'r gymuned lle mae'r dysgwyr yn byw eu bywydau, trwy gyfrannu'n rhagweithiol at ystod o gynulleidfaoedd a mynd i'r afael yn weithredol ag ymholi a chanfyddiadau pobl eraill.

DISGRIFIAD O'R DASG

Deallusrwydd Artiffisial

Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (AI Cynhyrchiol) a mynediad torfol iddo, a'i botensial i effeithio ar addysg uwch, yn cynnwys dysgu, addysgu, asesu a mynediad.

Mae Cyfarwyddyd PCYDDS ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (Dysgu ac Addysgu) yn esbonio safbwynt, addewidion a disgwyliadau'r Brifysgol o ran defnyddio offer AI cynhyrchiol.

Mae'r Brifysgol wedi cychwyn ar daith o integreiddio AI yn y cwricwlwm a darparu cymorth ar gyfer myfyrwyr a staff i gyfoethogi eu gwybodaeth a'u llythrennedd o ran AI.

O fis Medi 2024, disgwylir i bob asesiad modwl nodi'r defnydd(iau) a ganiateir, os oes rhai, o AI yn yr asesiad hwnnw'n rhan o Dempled y Fanyleb Asesu.

Mae'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu wedi creu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer myfyrwyr mewn llythrennedd AI yn rhan o'r rhaglen Sgiliau Gwybodaeth. Sgiliau Academaidd a Gwybodaeth | PCYDDS

Mae cymorth i fyfyrwyr ar y defnydd a ganiateir o AI mewn asesiadau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Am y set gyflawn o ddefnyddiau, gweler Canllawiau AI » Hwb.

Mae'r tabl isod yn nodi'r defnydd a ganiateir o AI ar gyfer y modwl hwn. Pa un ai a ydych chi'n dewis defnyddio AI ai peidio, **rhaid** i chi gynnwys cydnabyddiaeth fel y nodir yn y Canllaw Cydnabod AI sydd ar gael ar Hwb.

YMCHWIL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi wrth ymchwilio, yn cynnwys chwilio am lyfryddiaeth, defnyddio offer i grynhoi, cymharu deunyddiau a'u dadansoddi.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
STRWYTHUR	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i'ch cefnogi wrth strwythuro eich gwaith, yn cynnwys llunio strwythur dadl drafft, dynodi adrannau a phenawdau ac ati.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
PRAWF DDARLLEN	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i wirio eich testun/creadigaeth eich hun am wallau gramadegol a chystrawennol, yn cynnwys aralleirio eich gwaith eich hun o fewn safonau penodol.	Gallwch ☒ Na allwch ☐
YSGRIFENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu testun i'w gyflwyno.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
CREADIGOL	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu deunyddiau creadigol, megis delweddau.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
RHAGLENNU	Ar gyfer yr asesiad hwn, gallwch chi ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i greu a gwirio cod.	Gallwch ☐ Na allwch ☒
DIM	Ar gyfer yr asesiad hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio **unrhyw** fath o gymorth drwy Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymchwil, cymorth strwythur, cymorth ysgrifennu / prawf ddarllen a chymorth creadigol.	Cywir ☐ Anghywir ☒

STRWYTHUR ASESU A AWGRYMIR

Canllawiau i Fyfyrwyr

Archwilio'n feirniadol rôl ac effaith ymgysylltiad ysgol-teulu, dewis agwedd benodol ar brosesau a rhesymeg ysgol ar gyfer bodloni'r angen hwn. Fe ddylai eich cyflwyniad:

- Adnabod a disgrifio'r broses ymgysylltiad ysgol-teulu.
- Archwilio'n feirniadol y rhesymau tu ôl i'w gweithredu, gan ddefnyddio llenyddiaeth a fframweithiau perthnasol.
- Archwilio'r effaith bwriedig ar ddysgwyr, teuluoedd a chymuned yr ysgol.
- Adfyfyrio ar gryfderau a meysydd i'w datblygu ymhellach yn y broses ddewisol.

Enghreifftiau a Awgrymir (ddim yn gynhwysfawr)

1. **Teuluoedd dan Anfantais gymdeithasol:** Archwiliwch sut mae'r ysgol yn gweithio gyda theuluoedd sy'n wynebu caledi economaidd, gan ymdrin â rhwystrau i ymgysylltiad.
2. **Anghenion Academaidd:** Dadansoddwch strategaethau a ddefnyddir gan yr ysgol i gydweithio gyda theuluoedd wrth wella deilliannau academaidd myfyrwyr.
3. **ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol):** Gwerthuswch y prosesau sydd yn eu lle i ymgysylltu teuluoedd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol a sut maent yn meithrin cynhwysiant.
4. **Grwpiau Ethnig Lleiafrifol:** Archwiliwch ymagwedd yr ysgol at ymgysylltu teuluoedd o gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol gwahanol.
5. **Presenoldeb ac Ymddygiad:** Ymchwilio sut mae'r ysgol yn gweithio gyda theuluoedd i wella presenoldeb y myfyriwr neu ymdrin â heriau o ran ymddygiad.
6. **Rhaglenni Addysg i Rieni:** Archwilio'r rhesymeg ac effaith gweithdai neu sesiynau hyfforddi sydd wedi'u hanelu at roi sgiliau i rieni i gefnogi dysgu eu plant.
7. **Technoleg a Chyfathrebu:** Dadansoddi'r defnydd o offer digidol (e.e., apiau, pyrth ar-lein) i gyfoethogi cyfathrebu a chydweithio ysgol-teulu.

Promptiau Meddwl Beirniadol i Fyfyrwyr

I annog dyfnder, dylai myfyrwyr ystyried:

- Beth yw'r rhesymeg tu ôl i ymagwedd yr ysgol?
- Sut mae'r broses ymgysylltu'n alinio gyda pholisïau addysgol neu egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol?
- Pa dystiolaeth sy'n bodoli neu y gellid ei chasglu i gefnogi ei heffeithiolrwydd?
- Sut mae ffactorau diwylliannol, economaidd-gymdeithasol, neu ffactorau ieithyddol yn dylanwadu ar y broses a'i deilliannau?
- Pa argymhellion fyddai'n gallu cyfoethogi effaith y broses ymgysylltu?

Sleid 1: Sleid Teitl

- **Cynnwys:**
  - Teitl y cyflwyniad (e.g., "Deall Rôl ac Effaith Ymgysylltiad Ysgol-Teulu: Ffocws ar [Agwedd Arbennig]"
  - Rhif adnabod/Enw

Sleid 2: Cyflwyniad ac Amcanion

- **Cynnwys:**
  - Cyflwyniad byr i'r agwedd ddewisol ar ymgysylltiad teulu-ysgol (e.e., gweithio gyda theuluoedd dan anfantais gymdeithasol, cymorth academaidd).
  - Amcanion y cyflwyniad:
    1. Archwilio'n feirniadol y rhesymeg tu ôl i strategaeth ymgysylltu'r ysgol.
    2. Gwerthuso ei heffaith ar ddysgwyr a theuluoedd.
    3. Adfyfyrio ar welliannau ac ystyriaethau'r dyfodol.

Sleid 3: Fframwaith a Llenyddiaeth Ddamcaniaethol

- **Cynnwys:**
  - Cyflwyno'r fframwaith/fframweithiau damcaniaethol allweddol (e.e. model cyfranogiad rhieni Epstein, Theori systemau ecolegol Bronfenbrenner).
  - Crynodeb o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy sy'n cefnogi'r dadansoddiad.
  - **Pwysleisio mewnwelediadau beirniadol o ymchwil cyfredol** (e.e. arloesiadau, bylchau yn y llenyddiaeth)

Sleid 4: Cyd-destun yr Ysgol Lleoliad

- **Cynnwys:**
  - Trosolwg byr o'r ysgol lleoliad (math, demograffeg, cyd-destun cymuned).
  - Disgrifiad o'r broses ymgysylltu â theuluoedd penodol a ddewiswyd i'w ddadansoddi.
  - Sut mae'r broses ymgysylltu'n alinio gyda pholisïau addysgol neu egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol Cymru?

Sleid 5: Dadansoddiad Beirniadol o'r Broses Ymgysylltu

- **Cynnwys:**
  - Esboniad manwl o'r strategaeth neu broses ymgysylltu dewisol.
  - Gwerthusiad beirniadol o'i rhesymeg a gweithrediad.
  - Strategaethau ar gyfer casglu data ar effeithiolrwydd

Sleid 6: Adfyfyrio ar Ymchwil Cyfredol ac Arferion Arloesol

- **Cynnwys:**
  - Cymharu ymagwedd yr ysgol â mewnwelediadau o lenyddiaeth ac arferion gorau.
  - Amlygu gwrthddywediadau, bylchau, neu ymagweddau arloesol a welir gan fannau eraill.
  - Cynnig **mewnwelediadau cynnil, gwreiddiol neu ddatrysiadau posibl** er mwyn gwella.

Sleid 7: Effaith a Goblygiadau

- **Cynnwys:**
  - Trafod effaith y broses ymgysylltu ar:
    - Deilliannau dysgwyr
    - Cyfranogiad teulu

        - Cyd-berthnasau ysgol-cymuned
    - Adfyfyrio ar sut mae'r broses ymgysylltu hon yn ymdrin â chynwysoldeb a thegwch.

Sleid 8 Casgliad ac Argymhellion

- **Cynnwys:**
    - Crynhoi'r canfyddiadau beirniadol.
    - Darparu argymhellion clir, soffistigedig er mwyn cyfoethogi'r broses ymgysylltu.
    - Cynnwys adfyfyrdodau ar oblygiadau o ran arfer addysgu ac ymchwil y dyfodol.

Sleid 9: Cyfeiriadau

- **Cynnwys:**
    - Rhestr o gyfeiriadau wedi'i fformatio'n broffesiynol yn unol â safonau academaidd (e.e. Harvard).
    - Cynnwys ffynonellau diweddar, credadwy yn dangos ymgysylltiad dwfn â llenyddiaeth.

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt; dylech ddefnyddio adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol, lle bo'n briodol (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygwyd a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad i *ystod* eang o ffynonellau, a allai fod yn academaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnil. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwch fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnodi addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

- ***Cyrchwch ystod o ffynonellau ansawdd uchel:*** *Defnyddiwch erthyglau cyfnodolion academaidd, llyfrau, dogfennau llywodraeth, a gwefannau credadwy. Blaenoriaethwch ffynonellau a gyhoeddwyd yn y pum mlynedd diwethaf, ac eithrio yn achos gweithiau arloesol.*
- ***Gwerthuswch hygrededd:*** *Byddwch yn feirniadol am eich ffynonellau, yn arbennig cynnwys ar-lein. Mae cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid yn ddibynadwy iawn.*
- ***Integreiddwch ffynonellau:*** *Dangoswch dystiolaeth o ddarllen estynedig trwy ymgorffori dyfyniadau yn eich sleidiau a chyflwyniad llafar. Dylech osgoi gorlwytho sleidiau gyda thestun – defnyddiwch eich sgript i ymhelaethu ar syniadau a gyfeirnodir.*
- ***Cyfeirnodi:*** *Defnyddiwch system gyfeirnodi gyson, ar sleidiau (dyfyniadau yn y testun) ac yn y sleid gyfeirnodi olaf. Sicrhewch fod eich cyfeiriadau wedi'u fformatio'n gywir ac yn dilyn confensiynau academaidd.*

2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 6, dylech allu arddangos gwybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'r maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth. Dylech fod yn ymwybodol o ansicrwydd ac amwysedd gwybodaeth a'r cyfyngiadau arni. Mae'n rhaid i'ch gwaith ddangos ehangder cynyddol eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth systematig o gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sy'n gysylltiedig â'r maes pwnc. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a'r theorïau ac ati sy'n briodol i'r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r theorïau, y cysyniadau, ac ati yn ystyrlon i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd, bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych chi'n arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth; yn ddelfrydol, dylai'r ddwy fod yn gyflawn ac yn fanwl, ac wedi'u trin a'u trafod yn gynhwysfawr.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

- ***Dangoswch ddealltwriaeth ddofn:*** *Ewch y tu hwnt i ddisgrifiadau arwynebol. Esboniwch y cysyniadau, modelau a damcaniaethau allweddol, megis fframwaith cyfranogiad rhieni Epstein, theori systemau ecolegol Bronfenbrenner.*
- ***Cysylltwch ddamcaniaeth i arfer:*** *Dangoswch sut mae'r damcaniaethau hyn yn berthnasol i'r broses ymgysylltiad ysgol-teulu rydych chi'n ei dadansoddi.*

- ***Gosodwch gyd-destun:*** *Trafodwch sut mae strategaeth ymgysylltu'r ysgol yn ffitio o fewn blaenoriaethau addysgol ehangach yng Nghymru, fel cyfiawnder cymdeithasol neu ddwyieithrwydd.*
- ***Eglurder yr esboniad:*** *Dylech osgoi jargon lle bo'n bosibl a sicrhau bod y gynulleidfa'n gallu dilyn eich dehongliad o'r ffeithiau a'r damcaniaethau.*

3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu: gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth, dadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data y mae rhai ohonynt ar ben blaen disgyblaeth (ac a allai fod yn anghyflawn) er mwyn dyfeisio a chynnal dadleuon, ffurfio barn a/neu ddatrys problemau; disgrifio a rhoi sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil cyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfatebol, yn y ddisgyblaeth. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol, gwerthuso a synthesis. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Dylech bob amser ddarparu cyfiawnhad ar gyfer eich dadleuon a'ch barn. Mae darparu tystiolaeth eich bod wedi adfyfyrio ar syniadau pobl eraill yn y maes pwnc yn hanfodol os ydych am gyflwyno dadl resymegol a gwybodus o fewn eich gwaith. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth o'ch gallu i ffurfio barn gadarn a dadleuon argyhoeddiadol trwy ddefnyddio data a chysyniadau. Mae casgliadau cadarn, dilys yn hanfodol ac mae'n rhaid iddynt ddeillio o gynnwys eich gwaith. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

- *Dadansoddwch wybodaeth yn feirniadol: Torrwch y broses ymgysylltu i lawr yn rhannau llai. Er enghraifft, gwerthuswch resymeg, gweithrediad a deilliannau strategaeth benodol.*
- *Cyfiawnhewch eich pwyntiau: Esboniwch bob amser pam bod strategaeth yn effeithiol (neu beidio) a chefnogwch eich dadleuon â thystiolaeth. Gofynnwch gwestiynau fel:*
    - *Pam bod y broses hon yn arwyddocaol?*
    - *Sut mae'n ymdrin â heriau penodol?*
    - *Pwy sy'n elwa a pham?*
- *Cyfosodwch ddata: Os yw'n briodol, cymharwch ymagwedd yr ysgol ag arferion gorau o'r llenyddiaeth. Amlygwch safbwyntiau amgen.*
- *Darparwch gasgliadau cadarn: Dylech ddod i gasgliadau'n rhesymegol drwy eich dadansoddiad ac awgrymu argymhellion ar sail rhesymu da ar gyfer gwelliant.*

4. Sgiliau Ymarferol

Ar lefel 6, dylech allu cymhwyso'r dulliau a'r technegau rydych wedi'u dysgu er mwyn adolygu, cadarnhau, ymestyn a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth, a chychwyn a chyflawni prosiectau. Byddwch yn defnyddio'n gywir dechnegau dadansoddi ac ymholi sefydledig sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy, er mwyn dyfeisio a chynnal dadleuon a/neu ddatrys problemau. Dylech allu llunio cwestiynau priodol er mwyn cyrraedd ateb - neu ddynodi ystod o atebion. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw neu'r amgylchiadau hynny, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau, y gall rhai ohonynt fod yn arloesol ac yn greadigol. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf penodedig. Dylech ddangos ymwybyddiaeth o gyfyngiadau cysyniadau a theorïau wrth eu cymhwyso mewn cyd-destunau penodol.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

- *Dylech gymhwyso damcaniaethau i gyd-destunau byd go iawn: Defnyddiwch y strategaeth ymgysylltu ysgol a ddewisoch yn astudiaeth achos neu 'r canllaw arfer gorau (e.e. Llywodraeth Cymru ac ESTYN)*

- *Defnyddiwch enghreifftiau ac arteffactau: Dylech gynnwys dogfennau polisi ysgol perthnasol (lle bo'n briodol) i gefnogi eich pwyntiau.*
- *Cydnabyddwch y cyfyngiadau: Byddwch yn dryloyw ynghylch heriau neu gyfyngiadau wrth gymhwyso damcaniaethu i gyd-destun eich ysgol lleoliad.*
- *Cynigwch ddatrysiadau: Os byddwch yn nodi bylchau, awgrymwch strategaethau realistig yn seiliedig ar ddogfennau polisi a chanllaw.*

5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol

Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion sy'n gofyn am arfer menter a chyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau mewn amgylchiadau cymhleth ac anrhagweladwy. Mae hyn yn cynnwys dangos: y gallu i ddysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol i wella sgiliau presennol a chaffael cymwyseddau newydd o natur broffesiynol a fydd yn eich galluogi i ymgymryd â chyfrifoldeb sylweddol o fewn sefydliadau; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed yn unigol a/neu'n gydweithredol; eich bod yn gallu defnyddio cyfryngau priodol i gyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

- ***Cyflwyniad proffesiynol:*** *Dylai eich PowerPoint fod yn glir, yn apelgar yn weledol, ac yn ddiwall. Defnyddiwch ffontiau cyson, gosodwch y gwaith yn glir, a defnyddiwch elfennau gweledol perthnasol.*
- ***Cyfathrebu effeithiol:***
    - *Siaradwch yn rhugl a hyderus yn eich fideo.*
    - *Dylech deilwra eich iaith i ymgysylltu cynulleidfaoedd academaidd ac anarbenigol.*
- ***Strwythur a chydlyniad:*** *Sicrhewch fod eich cyflwyniad yn llifo'n rhesymegol, gan symud yn glir o un adran i'r llall.*

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	**Marciau sydd ar gael**	**Marciau a ddyfarnwyd**
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth		
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol		
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol		
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol		

Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	**Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)**		**%**
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		

MEINI PRAWF ASESU GENERIG

Lefel 6
Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 6 dylai fod gan fyfyrwyr wybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'u maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y ddisgyblaeth. Byddant yn gallu defnyddio technegau dadansoddi ac ymholi sefydledig yn gywir o fewn disgyblaeth, gan ddefnyddio'u dealltwriaeth gysyniadol i ddyfeisio a chynnal dadleuon a/neu i ddatrys problemau. Dylent fod yn ymwybodol o ansicrwydd ac amwysedd gwybodaeth a'r cyfyngiadau arni. Dylent allu gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth, dadleuon, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn), i lunio barn, ac i fframio cwestiynau priodol er mwyn cyrraedd ateb - neu ddynodi ystod o atebion. Byddant yn cymhwyso'r dulliau a'r technegau maent wedi'u dysgu i adolygu, cadarnhau, ymestyn a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a chychwyn a chyflawni prosiectau. Bydd ganddynt y gallu i reoli eu dysgu eu hunain, a manteisio ar adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygwyd a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Byddant yn arddangos y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am y canlynol: arfer menter a chyfrifoldeb personol; gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy; y gallu i ddysgu sydd ei angen i ymgymryd â hyfforddiant pellach priodol o natur broffesiynol neu gyfatebol.

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (Llwyddo)	DA i DDA IAWN (Teilyngdod)	RHAGOROL (Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (Rhagoriaeth)
Categori	**F**	**E**	**D**	**C**	**B**	**A**
Ymgysylltu â llenyddiaeth (yn cynnwys darllen, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi.	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnodi, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir.
Gwybodaeth a dealltwriaeth (Gwybodaeth gydlynol a manwl a dealltwriaeth systematig o'r maes pwnc, y mae o leiaf rhywfaint o'r rhain wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf a/neu ysgolheictod uwch o fewn y	Bylchau mawr yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth systematig o'r maes pwnc. Anghywirdebau sylweddol. Dim ymwybyddiaeth o wybodaeth am yr ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y	Bylchau yn y wybodaeth, gyda dealltwriaeth systematig arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dim ymwybyddiaeth o wybodaeth am yr	Gwybodaeth a dealltwriaeth systematig gyfyngedig o'r cysyniadau a'r egwyddorion perthnasol yn y maes pwnc sydd i raddau cyfyngedig, wedi'u seilio ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.	Mae'r wybodaeth yn gymharol fanwl a chywir gyda dealltwriaeth systematig dda o'r maes astudio ac i ryw raddau, o ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.	Mae'r wybodaeth yn gymharol helaeth, gydlynol a manwl. Arddengys ddealltwriaeth dda iawn o ehangder a manylder safbwyntiau sefydledig, ac mae'r gwaith, yn rhannol o leiaf, wedi'i seilio'n dda ar ymchwil ac	Gwybodaeth a dealltwriaeth systematig gydlynol, fanwl, ragorol o egwyddorion a theorïau ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth glir o heriau i safbwyntiau sefydledig a chyfyngiadau'r sail

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (Llwyddo)	DA i DDA IAWN (Teilyngdod)	RHAGOROL (Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (Rhagoriaeth)
Categori	**F**	**E**	**D**	**C**	**B**	**A**
ddisgyblaeth.)	ddisgyblaeth.	ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth.			ysgolheictod cyfredol.	wybodaeth.
Sgiliau gwybyddol a deallusol (Meddwl cysyniadol a beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso ymchwil, tybiaethau, cysyniadau haniaethol a data (a allai fod yn anghyflawn); rhesymeg, dadl a barn).	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim dadansoddi, synthesis neu werthuso. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy.	Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso beirniadol. Datblygu gwan ar ddadleuon a barn. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd.	Ymgais cyfyngedig at feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon a barn cynyddol ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli. Yn haeru'n hytrach na dadlau achos.	Rhywfaint o feddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso. Gall ddadansoddi cysyniadau a data newydd a/neu haniaethol heb arweiniad. Ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol safbwyntiau, a gallu i ddefnyddio tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) i gefnogi'r ddadl. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan. Rhywfaint o duedd i haeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth.	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso cadarn gan arddangos meddwl beirniadol. Gallu i ddyfeisio a chynnal dadleuon argyhoeddiadol ac i adolygu dibynadwyedd, dilysrwydd ac arwyddocâd tystiolaeth (a allai fod yn anghyflawn) er mwyn llunio barn briodol a dilys ar y cyfan.	Meddwl beirniadol, dadansoddi, synthesis a gwerthuso rhagorol. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig. Rhywfaint o dystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafael ar y maes a'r cysyniadau ehangach.
Sgiliau ymarferol (Cymhwyso / defnyddio offer a thechnegau sefydledig yn gywir; cychwyn a chyflawni prosiectau; llunio atebion i ddatrys problemau mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.)	Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol	Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud	Ymwybyddiaeth ddigonol a chymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau sefydledig mewn modd priodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol	Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau safonol mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau priodol	Cymhwyso ystod o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso, gyda mewnwelediad treiddgar. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	Cymhwyso ystod o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn dreiddgar. Mae'r cymhwyso a'r defnyddio'n mynd y tu hwnt i gonfensiynau sefydledig. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion rhagorol.

Lefel 6	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (Llwyddo)	DA i DDA IAWN (Teilyngdod)	RHAGOROL (Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (Rhagoriaeth)
Categori	**F**	**E**	**D**	**C**	**B**	**A**
	rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan iawn mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	wedi'u cymhwyso'n ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy heb werthfawrogi'r cymhlethdod yn llawn.	rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y cyfan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	Tystiolaeth o beth arloesi a chreadigrwydd.	Arloesi a chreadigrwydd yn amlwg.
Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol (Arfer menter a chyfrifoldeb personol; datblygiad proffesiynol; cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau: yn unigol a / neu'n gydweithredol; defnyddio cyfryngau priodol i gyfathrebu'n effeithiol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn.)	Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam-gymhwyso. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymreolaeth (neu o gydweithio, pan fo'n berthnasol) wrth gwblhau tasgau. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion.	Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn addas at y gynulleidfa. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd digyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Menter annibynnol (neu gydweithio, os ydy'n berthnasol), wan. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion.	Gall gyfathrebu mewn cyfrwng addas ond gyda lle i wella. Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlyniad mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o dîm, ond gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda rhai meysydd o fân wendid.	Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn fformat addas, ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp Arddengys y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid.	Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth i raddedigion, gyda mân wendid achlysurol yn unig.	Gall gyfathrebu'n broffesiynol, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n ymreolaethol gyda menter. Lle bo'n berthnasol gall weithio'n broffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain fel y bo'n briodol, gan reoli gwrthdaro a chan fodloni ymrwymiadau. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth i raddedigion ac awydd i ddatblygu ymhellach.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG